# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 20 Ionawr 2020

Amser: 14.45 - 14.54

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5870

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Mick Antoniw AC (Cadeirydd)<br>Paul Davies AC (yn lle Suzy Davies AC)<br>Dai Lloyd AC |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Rachael Davies (Dirprwy Glerc)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Katie Wyatt (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Cafwyd ymddiheuriadau gan Carwyn Jones AC a Suzy Davies AC. Roedd Paul Davies AC yn bresennol i ddirprwyo ar ran Suzy Davies AC.

Esboniodd y Cadeirydd fod eitemau 4, 7 ac 8 ar y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) wedi'u gohirio oherwydd amgylchiadau annisgwyl, a bod trefn busnes y cyfarfod wedi'i haddasu oherwydd hynny.

## 5 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad yn eu cylch i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 5.1 SL(5)487 - Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2020

Nododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

## 6 Papur(au) i'w nodi

### 6.1 Llythyr gan y Prif Weinidog at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol: Bil yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael)

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Prif Weinidog.

### 6.2 Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru)

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

### 6.3 Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon: Y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru)

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon.

### 6.4 Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid: Y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru)

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid:

### 6.5 Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig: Cyfarfodydd y Grŵp Rhyngweinidogol ar yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ac, mewn cyfarfod preifat, cytunodd i barhau â'r ohebiaeth â'r Cwnsler Cyffredinol ynghylch gofynion y cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol.

## 2 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 3:

Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 3 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol)

Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad drafft ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol), ac fe'i derbyniwyd.

## 4 Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru): Sesiwn dystiolaeth - GOHIRIWYD

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn: - GOHIRIWYD:

## 8 Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru): Trafod y dystiolaeth - GOHIRIWYD